# Mesur Diogelwch Tân Domestig (Cymru) 2011

**2011 mccc 3**

## 6 Dehongli

(1) Yn y Mesur hwn—

ystyr “awdurdod lleol” (*“local authority”*) yw cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol yng Nghymru,

ystyr “y Cynulliad” *(“the Assembly”)* yw Cynulliad Cenedlaethol Cymru,

“Deddf 1984 ” *(“the 1984 Act”)* yw Deddf Adeiladu 1984 (p.55),

ystyr “gwaith adeiladu” (“*building work*”) yw gwaith i godi, estyn neu addasu adeilad,

“hysbysiad corff cyhoeddus” (*“public body's notice”*) yw'r ystyr a roddir iddo yn Rhan 2 o Ddeddf 1984,

“hysbysiad cychwynnol” (*“initial notice”*) yw'r ystyr a roddir iddo yn Rhan 2 o Ddeddf 1984,

ystyr “perchennog” (*“owner”*) yw'r ystyr a roddir iddo yn Neddf 1984,

ystyr “preswylfa” *(“residence”)* yw—

(a) tŷ annedd,

(b) fflat,

(c) cartref gofal (pan fydd i “cartref gofal” (*“care home”)* yr un ystyr ag sydd iddo yn Neddf Safonau Gofal 2000 (p.14))

(d) llety preswyl ar gyfer disgyblion neu fyfyrwyr ysgol, coleg, prifysgol neu sefydliad addysgol arall, neu

(e) ystafell neu grŵp o ystafelloedd o fewn adeilad, os bwriedir i berson neu bersonau ddefnyddio'r ystafell honno neu'r ystafelloedd hynny ar gyfer byw neu gysgu ac eithrio fel rhan o aelwyd unigol sy'n meddiannu'r adeilad cyfan, a

lle y mae adeilad yn cynnwys un breswylfa neu fwy, yn cynnwys unrhyw ran o'r adeilad hwnnw y bwriedir iddo gael ei ddefnyddio gan y rheini sy'n byw yn y breswylfa honno neu'r preswylfeydd hynny at ddibenion atodol

**Statws** *Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 08/04/2011. Mae'r fersiwn hon o'r hwn (hon) disodlwyd y ddarpariaeth.*
***Newidiadau i ddeddfwriaeth:*** *Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Mesur Diogelwch Tân Domestig (Cymru) 2011, Adran 6. (See end of Document for details)*

i'r feddiannaeth honno sy'n gyffredin â'i gilydd neu â defnyddwyr eraill yr adeilad,

ystyr "rhagnodwyd" *("prescribed")* yw wedi'i ragnodi gan reoliadau a wnaed gan Weinidogion Cymru,

ystyr "rheoliadau adeiladu" *("building regulations")* yw rheoliadau a wneir o dan adran 1 o Ddeddf 1984,

ystyr "swyddog awdurdodedig" (*"authorised officer"*) yw swyddog awdurdod lleol sydd wedi'i awdurdodi yn ysgrifenedig gan yr awdurdod hwnnw, boed yn gyffredinol neu'n benodol, i weithredu mewn materion o fath arbennig neu mewn mater penodol, ac

ystyr "swyddog priodol" (*"proper officer"*), mewn perthynas â phwrpas ac ag awdurdod lleol, yw swyddog a benodwyd at y diben hwnnw gan yr awdurdod hwnnw.

(2) Yn ddarostyngedig i is-adran (3), caiff Gweinidogion Cymru, drwy orchymyn, ddiwygio diffiniad "preswylfa" yn is-adran (1) drwy—

(a) ychwanegu dosbarth o fangreoedd preswyl, neu

(b) diwygio'r disgrifiad o ddosbarth o fangreoedd preswyl sydd eisoes yn bodoli.

(3) Yn is-adran (2), ystyr "mangreoedd preswyl" ("*residential premises*") yw'r ystyr a roddir iddo yn—

(a) paragraff 7 o Ran 1 Atodlen 7 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32), unwaith y bydd mewn grym, neu,

(b) tan hynny, Mater 11.1 yn Rhan 1 Atodlen 5 i'r Ddeddf honno.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 6 mewn grym ar 8.4.2011, gweler **a. 9(2)(b)**

**Statws**
Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 08/04/2011. Mae'r fersiwn hon o'r hwn (hon) disodlwyd y ddarpariaeth.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Mesur Diogelwch Tân Domestig (Cymru) 2011, Adran 6.